**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: HID-PO-122-24

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
SeneddEconomy@senedd.wales

22 Ebrill 2024

Annwyl Paul

Diolch am eich llythyr ar 21 Mawrth at fy rhagflaenydd Lesley Griffiths AS, y cyn Weinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, yn gofyn am eglurhad pellach ar yr atebion a roddwyd gan fy rhagflaenydd mewn perthynas â Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ystod ei phresenoldeb yn Craffu Cyffredinol ar y Gweinidog ar 6 Mawrth.

Gan ganolbwyntio ar Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r "llinell sylfaen reoleiddiol", fel yr eglurodd fy rhagflaenydd ym mis Mawrth, mae'r llinell sylfaen reoleiddiol (ar gyfer amaethyddiaeth) yn cyfeirio at y safonau gofynnol cenedlaethol yn y gyfraith y mae'n ofynnol i bob person yng Nghymru gydymffurfio â hwy, a'r drosedd (troseddau) gysylltiedig am unrhyw dorri'r safonau gofynnol hynny. Yn aml, cyfeirir at y trothwy cyfreithiol hwn ar lafar gan swyddogion fel NMS.

Mae'r llinell sylfaen reoleiddiol ar wahan i reolau a chanllawiau'r cynllun. Mae pob cynllun yn sefydlu rheolau penodol sy'n berthnasol i'w weithgareddau a'i ganlyniadau, sy'n aml yn dod gyda chanllawiau wedi'u teilwra wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Gall y rheolau hyn osod amodau ar gyfranogwyr, yn ogystal â sbarduno gofynion rheoleiddio penodol sydd ond yn berthnasol i gyfranogwyr y cynllun penodol hwnnw.

Ar gyfer ffermwyr sy'n hawlio Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), un amod grant yw cydymffurfio â thrawsgydymffurfiaeth. Mae hon yn is-set o'r llinell sylfaen reoleiddiol sy'n cynnwys Gofynion Rheoli Statudol (SMR) neu Amodau Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC).

Roedd ymgynghoriad diweddar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn cynnig y byddai cydymffurfio â'r llinell sylfaen reoleiddiol yn parhau i fod yn un o amodau'r grant SFS. Bydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

manylion rheolau'r cynllun terfynol, gan gynnwys gwiriadau o'r llinell sylfaen reoleiddiol, a'u defnydd yn SFS yn cael eu cyhoeddi cyn lansio'r Cynllun.

Yn dilyn diwedd BPS, bydd yn dal yn ofynnol i'r ffermwyr hynny nad ydynt yn SFS fodloni'r llinell sylfaen reoleiddiol sy'n cynnwys mwyafrif y gofynion GAEC.

Mae manylion am yr holl safonau GAEC wedi'u nodi yn y safonau a'r canllawiau gwiriadwy a gyhoeddir bob blwyddyn ar gyfer ffermwyr o fewn BPS, a disgwylir mabwysiadu dull tebyg ar gyfer SFS.

Gan droi at argymhellion Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (CCC), a'r rhesymeg dros y targed gorchudd coed o 10 y cant, mae Gweinidogion Cymru wedi derbyn cyngor gan y CCC i gynyddu gorchudd coed yng Nghymru fel rhan o'n llwybr rheoledig i sero net hy 43,000 hectar o goetir newydd i'w blannu erbyn 2030.

Wrth i ffermwyr reoli'r rhan fwyaf o dir yng Nghymru, hwy sydd yn y sefyllfa orau i helpu i gyflawni'r targedau hyn a chael y manteision ganddynt.

Yr Adroddiad Cynnydd diweddaraf: Lleihau allyriadau yng Nghymru (theccc.org.uk) gan CCC yn amlinellu eu hargymhelliad ar y llwybr i sero net yng Nghymru. Mae cyngor CCC yn cynnwys;

- cyfeirio at gyfraddau plannu coed blynyddol o 4,500 hectar y flwyddyn o leiaf yng Nghymru erbyn 2030, gan godi i 7,500 y flwyddyn erbyn 2035.
- amaeth-goedwigaeth - i blannu coed ar 2% o dir fferm erbyn 2025 tra'n cynnal ei brif ddefnydd, gan godi i 5% erbyn 2035, ac ymestyn perthi 20% erbyn 2035 a rheoli perthi presennol yn well.

Nid yw'n ddewis rhwng y ddau - mae angen bodloni'r ddau fel rhan o'r llwybr cydbwysedd CCC.

Bwriad cynnig yr SFS o orchudd coed o 10% oedd helpu i ledaenu'r targed hwn ledled Cymru er mwyn osgoi blociau mawr o newid defnydd tir, a galluogi ffermwyr i elwa o'r cyllid yn ogystal â manteision uniongyrchol ac anuniongyrchol gorchudd coed ychwanegol.

Gan gyfeirio at broses ymgynghori SFS a'r camau nesaf, drwy gynnwys ffermwyr yn y broses dylunio cynllun gan gynnwys dau gam o gyd-ddylunio, tri ymgynghoriad a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym wedi gallu defnyddio mewnbwn ffermwyr mewn ffordd nad ydym wedi'i wneud o'r blaen. Y bwriad parhaus yw dylunio ein cefnogaeth i ffermydd yn y dyfodol fel ei fod yn addas i Gymru, gan gydnabod y cryfderau a'r cyfleoedd y mae ffermio yn eu darparu.

Roedd sioeau teithiol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gyfle gwerthfawr i siarad â dros 3,200 o ffermwyr am gynigion y cynllun. Fe wnaethant hefyd ganiatáu inni ddileu rhai o'r camdybiaethau cyffredin sydd, yn anffodus, wedi cael eu derbyn gan ddiwydiant. Cafodd swyddogion lawer o adborth ynghylch pa mor ddefnyddiol oedd y trafodaethau hynny wrth ddarparu eglurder ynghylch y cynigion.

Awgrymwyd hefyd nad oeddem yn gwrando ar y pryderon a godwyd, fodd bynnag, rydym wedi gwneud nifer o newidiadau sylweddol o fersiynau blaenorol o gynigion yn seiliedig ar adborth gan y diwydiant.

Rydym yn edrych ar sut i gyfathrebu'n well â ffermwyr unigol ynghyd â rhanddeiliaid cynrychioliadol yn y dyfodol. Byddwn yn sefydlu pwyntiau adolygu rheolaidd rhwng

Llywodraeth Cymru a'r undebau ffermio a chynrychiolwyr, wrth lunio cynigion terfynol, fel y nodir yn y Datganiad Ysgrifenedig dyddiedig 29 Chwefror.

Y bwriad yw cyflwyno'r Cynllun o 2025 ymlaen, ond dim ond pan fydd y Cynllun yn barod y gellir gwneud hyn. Mae'n bwysig ein bod yn cymryd yr amser i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ystyried beth mae hyn yn ei olygu i ddyluniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Cawsom tua 12,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad gyda'r mwyafrif, 75% ohonynt yn cael eu cyflwyno drwy e-bost, felly cawsom ymateb gwych. Mae hyn ochr yn ochr â'r adborth o'r deg sioe deithiol SFS yn darparu sylfaen dystiolaeth gref i brofi a mireinio'r cynigion.

Mae hwn yn ymgynghoriad gwirioneddol ac ni fydd unrhyw benderfyniadau ar unrhyw elfen o'r cynnig, gan gynnwys sut rydym yn cyflawni'r gofyniad am gynefinoedd a choed, yn cael eu gwneud nes ein bod wedi cynnal dadansoddiad llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Rydym yn disgwyl gwneud rhai newidiadau i'r cynigion o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Byddaf yn rhannu manylion gyda chi am y newidiadau arfaethedig a'r manylion ymarferol megis ymgysylltu pellach â'r diwydiant cyn gynted â phosibl.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs